TERFYNOL

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw'r Darparwr:	Cartref Preswyl Trem y Castell, Heol Claude, Caerffili
Dyddiada(au) yr Ymweliad:	Dydd Mawrth 27 Mehefin, 2017, 9.30yb – 3.00yp Dydd Iau 6 Gorffennaf, 2017, 9.30yb – 12.30yp
Swyddog Ymweld:	Andrea Crahart (Swyddog Monitro Contractau)
Presennol:	Mandy Chattaway (Rheolwr Cofrestredig) Kirsty Jones (Uwch Swyddog Gofal)

1. Cefndir

1.1 Mae Trem y Castell yn gartref preswyl ar gyrion tref Caerffili, wedi ei gofrestru i ddarparu gofal preswyl i 28 o bobl, gydag 11 o'r bobl hynny â dementia. Ar adeg yr ymweliad roedd gan y cartref 2 le yn wag oedd yn addas ar gyfer person hŷn bregus, ac 1 ar gyfer person gyda dementia.

1.2 Mae'r cartref yn cael ei ddefnyddio ar 2 lefel, h.y. llety ar y llawr daear i bobl sy'n hŷn/mwy bregus, ac ar y llawr cyntaf mae llety i bobl gyda dementia (o'r enw 'Cartref').

1.3 Bydd Swyddogion Monitro Contractau yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu a dehongli data fel rhan o ymweliad monitro, yn cynnwys arsylwi ar yr arfer yn y cartref, edrych ar ddogfennau a sgwrsio gydag unigolion (e.e. preswylwyr, perthnasau). Roedd y sefydliad wedi cael rhybudd ymlaen llaw ar y ddau dro yr ymwelwyd â Threm y Castell.

1.4 Yng ngwanwyn 2014, dechreuwyd defnyddio dull 'wedi ei seilio ar deimladau' *Dementia Care Matters* yn Nhrem y Castell. Mae'r ethos hwn yn hyrwyddo model o ofal dementia lle mae'r unigolyn yn ganolog iddo, ac sy'n wahanol i syniadau traddodiadol o ofal. Bydd y Swyddog Monitro Contractau'n monitro sut mae'r ffordd hon o weithio yn dod ymlaen, yn ystod yr ymweliadau monitro.

1.5 Bydd Tîm Comisiynu CBSC yn cael adborth yn rheolaidd oddi wrth weithwyr cymdeithasol/swyddogion adolygu ayyb o ran ansawdd gofal mewn cartrefi gofal. Yn ystod y flwyddyn cyn yr ymweliadau, cafwyd adborth cadarnhaol am Drem y Castell. Roedd y sylwadau oddi wrth berthnasau'n cynnwys bod "y staff yn wych, yn gyfeillgar a chroesawus" a bod "y staff yn deimladwy, amyneddgar, ac mae teimlad cartrefol yn y cartref". Cafwyd un gŵyn yn ystod y cyfnod hwn, cafodd hynny ei ymchwilio a rhoddwyd sylw i'r mater gyda'r aelod staff dan sylw.

1.6 Daeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ymweld â'r cartref ddiwethaf yn 2015. Rhagwelir y bydd ymweliad eto maes o law.

1.7 Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, bydd y darparwr yn cael camau gweithredu i'w cwblhau ar gyfer unioni a datblygu. Mae camau unioni yn rhai mae'n rhaid eu cwblhau (fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth); mae camau datblygu yn argymhellion ar gyfer arfer da.

2. Ymweliad monitro blaenorol

2.1 Datgeliadau DBS (ffotocopïau) i beidio cael eu cadw mwyach ar ffeiliau staff, neu gadw ddim ond gwybodaeth sylfaenol yn ymwneud â'r unigolyn (h.y. enw llawn, rhif datgeliad, dyddiad y daw i ben). Amserlen: yn mynd ymlaen. **Mae trefniadau yn eu lle i staff lofnodi (gyda dyddiad) i roi caniatâd i wybodaeth DBS gael ei chadw ar eu ffeil.**

2.2 Tystysgrifau hyfforddiant i gael eu gosod ar ffeiliau staff unigol. Amserlen: Ar unwaith ac i fynd ymlaen. **Gweithredu ar hyn yn parhau i fynd ymlaen.**

2.3 Cadw cofnodion o gyfweliadau ar ffeiliau staff unigol, ar gyfer unrhyw benodiadau yn y dyfodol. Amserlen: Ar unwaith ac yn mynd ymlaen. **Cyflawnwyd y gofyn hwn.**

2.4 Trefnu i gael hyfforddiant ar gyfer DoLS (trefniadau diogelu rhag colli rhyddid) nad yw'n hyfforddiant gorfodol. Hyn er mwyn sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth bresennol. Amserlen: o fewn 6 mis. **Bydd rheolwyr y cartref yn mynd ar yr hyfforddiant hwn ac yn rhannu'r wybodaeth gyda'r staff eraill.**

2.5 Cynllunio'n barhaus/diweddaru ar gyfer hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant gorfodol e.e. gofal diwedd oes/profedigaeth a cholled, gofalu am friwiau pwyso ayyb. Os bydd unrhyw anhawster gyda bwcio cyrsiau trwy Dîm Datblygu'r Gweithlu CBSC/Blaenau Gwent, dylid tynnu sylw at hynny. Amserlen: o fewn 12 mis. **Cyflawnwyd y gofyn hwn.**

3. Canfyddiadau o'r ymweliad

3.1 Archwiliad o Ffeiliau a Dogfennau

3.1.1 Fe edrychwyd ar ffeiliau dau breswylydd yn ystod yr ymweliad. Roedd yn amlwg bod y Cynlluniau Gwasanaeth yn fanwl ac yn cynnwys pob agwedd briodol o ofal e.e. ymolchi, bathio, gofal traed a cheg, bwyta/yfed ayyb. Roedd yn amlwg bod y cartref wedi symud ymlaen i gael Cynlluniau Gwasanaeth yn canolbwyntio mwy o gwmpas yr unigolyn; ac wedi cael y preswylydd neu eu perthynas yn rhan o'r broses hon.

3.1.2 Mae Cynlluniau Gwasanaeth hefyd wedi cael eu harfarnu/hadolygu mewn ffordd ystyrlon yn rheolaidd, yn cynnwys pob maes o angen a enwyd yn y Cynlluniau Gofal.

3.1.3 Yn y ddwy ffeil, roedd dogfen o'r enw '*This is me'* sydd wedi cael ei chreu gan Gymdeithas Alzheimer's. Gyda'r ddogfen hon, mae modd casglu gwybodaeth fel cefndir teulu'r unigolyn, digwyddiadau pwysig yn eu bywyd, pobl/llefydd, beth maen nhw'n ei hoffi, trefniadau arferol a phersonoliaeth; nod hyn yw cynorthwyo staff i gefnogi pobl er mwyn lleihau gofid ac ateb eu hanghenion. Doedd un o'r dogfennau ddim wedi cael ei chwblhau, a thynnwyd sylw'r Rheolwraig at hynny ar adeg yr ymweliad.

3.1.4 Ar gyfer un person, roedd Asesiad Risg yno ar gyfer anghenion iechyd yr unigolyn, ond cadarnhawyd bod yr asesiad wedi mynd yn hen ers cryn amser, felly ni fyddai'n cael ei adolygu ond yn hytrach ei dynnu allan o'r ffeil.

3.1.5 Roedd y Cofnodion Dyddiol yn cynnwys llawer o wybodaeth am anghenion y person, ac yn adlewyrchu'r wybodaeth yn y Cynlluniau Gwasanaeth. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i alluogi staff i ofalu am bobl yn ystod y nos h.y. cyfarwyddiadau ar ba mor aml roedd y preswylydd yn dymuno cael rhywun yn edrych eu bod yn iawn yn ystod y nos, a oeddent yn gallu defnyddio cloch i alw am sylw, a beth fyddai'r unigolyn yn dymuno ei yfed ar ôl deffro ayyb.

3.1.6 Roedd y ffeiliau'n dangos y cysylltwyd gyda gwahanol bobl broffesiynol ym maes iechyd pan oedd angen h.y. meddyg teulu, nyrs ardal. Mae'r cartref yn parhau i gynnal perthynas waith dda iawn gyda'r feddygfa leol, a'r meddyg teulu'n ymweld yn rheolaidd.

3.1.7 Mae cytundeb mewn lle gyda pherthnasau, i adael iddynt wybod am ddigwyddiadau, gyda phob parti sy'n ymwneud â hynny wedi cytuno i gymryd rhan. Roedd hefyd yn amlwg oddi wrth sgwrsio gyda pherthnasau ayyb y bydd y teulu agosaf/perthnasau yn cael gwybod am ddigwyddiadau/newidiadau mewn iechyd pobl ayyb.

3.2 <u>Hyfforddiant</u>

3.2.1 Edrychwyd ar ddwy ffeil staff, oedd yn cynnwys rhaglen gyflwyno (anwytho) oedd wedi ei chymeradwyo gan y rheolwraig. Roedd yr hyfforddiant cyflwyno'n cynnwys e.e. croeso personol, taith o gwmpas yr adeilad, iechyd a diogelwch, cyflwyniad i gyflogaeth yn y cartref, polisïau/gweithdrefnau, diogelu ayyb. Yn ogystal, roedd aelod o staff wedi dechrau ar lyfryn Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol oddi wrth Ofal Cymdeithasol Cymru, gyda golwg ar gwblhau'r holl amcanion dysgu maes o law.

3.2.2 Ar yr adeg hon, mae 84% o'r staff wedi ennill NVQ/QCF (Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol/Fframwaith Cymwysterau a Chredydau) lefel 2 neu 3 mewn gofal cymdeithasol. Mae'n ofynnol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru bod o leiaf 50% o'r staff wedi ennill y cymhwyster hwn. Cafodd y Swyddog Monitro Contractau hefyd wybod bod 5 aelod o staff yn gweithio tuag at un o'r cymwysterau hyn, ac yn ogystal bod rhai staff wedi cyrraedd NVQ lefel 3 neu 5 mewn rheolaeth.

3.2.3 Bydd cyrsiau hyfforddi ar gael trwy Dîm Datblygu'r Gweithlu CBSC/Blaenau Gwent, sy'n darparu amrediad eang o gyrsiau, yn rhai gorfodol a dewisol, ar gyfer darparwyr. Bydd y cartref hefyd yn darparu ei hyfforddiant ei hunan tu mewn i'r sefydliad, mewn perthynas â'r ethos 'ar sail teimladau' gan *Dementia Care Matters*, sy'n cael ei hyrwyddo'n rheolaidd a'i fonitro gan y Rheolwraig/staff uwch.

3.2.4 Roedd matrics hyfforddiant y cartref yn dangos y bu'r staff ar hyfforddiant gorfodol (codi a chario, glendid bwyd, amddiffyn oedolion bregus, rheoli haint, cymorth cyntaf, dementia ayyb.) a lle nad oedd unigolion wedi bod ar yr hyfforddiant hyd hynny roedd trefniadau ar eu cyfer wedi eu bwcio ymlaen llaw.

3.2.5 Bydd amrediad eang o gyrsiau hyfforddi heb fod yn orfodol yn cael eu defnyddio e.e. pobl hŷn yn syrthio, ymwybyddiaeth tân, gofal diwedd oes/galar a cholled, ymwybyddiaeth o gynllunio wedi ei ganoli ar yr unigolyn, briwiau pwyso, amhariadau ar y golwg, iechyd y geg, gofal cathetr ayyb. Dywedwyd wrth y Swyddog Monitro Contractau bod y cartref wedi cael anhawster i gael pobl i fynd am yr hyfforddiant DoLS (trefniadau diogelu rhag colli rhyddid). Fodd bynnag, dywedodd y rheolwraig bod gan y tîm staff ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a beth oedd yn ei olygu i bobl nad oeddent yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Roedd staff hefyd wedi bod ar gyrsiau'n ymwneud â'r Ddeddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a bydd trafodaethau am sut i weithredu hon yn digwydd mewn cyfarfodydd tîm, cyfnodau goruchwyliaeth ayyb.

3.3. Staffio

3.3.1 Fel rhan o'r ethos *Dementia Care Matters*, mae'r cartref yn parhau gyda'r ethos 'dim gwisg swyddogol' sy'n hyrwyddo teimlad mwy 'cartrefol' ac yn osgoi'r rhwystrau sy'n gallu digwydd pan fydd pobl mewn gwisg swyddogol.

3.3.2 Yn ystod y cyfarfodydd monitro, roedd y lefelau staffio'n golygu bod 6 o ofalwyr yn ystod y dydd a 3 yn ystod y nos.

3.3.3 Roedd ffeiliau ar gyfer dau aelod o staff yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol h.y. ffurflen gais fanwl, tystiolaeth (ffotocopi) o brawf DBS (a alwyd gynt yn BCT). Roedd yn ymddangos nad oedd yno dystysgrifau hyfforddiant, ond bydd hyn yn aml yn dibynnu ar fod staff yn dod â hwy i'r cartref. Roedd ffotograffau hefyd yn bresennol ar gyfer y ddau aelod o staff, yn ogystal â chofnodion cyfweliadau oedd yn cynnwys system sgorio a nodiadau wnaed yn ystod y cyfweliad ar ba mor addas oedd yr ymgeisydd. Mae'r Swyddog Monitro Contractau'n ymwybodol bod Contractau Cyflogaeth unigol yn cael eu cadw'n ganolog gan Adran Adnoddau Dynol CBSC ac y bydd aelodau staff hefyd yn cadw eu copi eu hunain. Doedd tystlythyrau ysgrifenedig ddim ar gael ar unwaith ar un o'r ffeiliau, er y nodwyd yn ddiweddarach eu bod ar gael ac wedi eu storio'n ddiogel (yn electronig).

3.3.4 Mae gan y cartref fatrics o sesiynau goruchwyliaeth wedi eu cynllunio, a matrics ar wahân i ddangos pa bryd y cynhaliwyd sesiynau. Roedd yn amlwg bod y mwyafrif o staff wedi cael sesiynau goruchwylio rheolaidd yn ystod y misoedd hyd at hynny. Mae wedi ei gynllunio i gael goruchwyliaeth fesul 2 fis (fel sy'n ofynnol gan safonau sylfaenol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae cynllunio'n digwydd ar gyfer cynnal arfarniadau, ond dywedwyd wrth y Swyddog Monitro nad oedd hynny wedi mynd ymlaen yn ôl yr amserlen ar yr adeg honno.

3.3.5 Mae bwrdd arddangos yn y brif fynedfa, lle bydd staff yn rhoi ffotograff ohonynt eu hunain. Trwy wneud hynny, bydd pobl broffesiynol, perthnasau ayyb sy'n galw i mewn i'r cartref yn gwybod pwy sy'n gweithio yno.

3.3.6 Bydd yr holl staff yn cael eu hannog i ymgymryd â gweithgareddau fel rhan o'u dyletswyddau, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hysbrydoli a bod dyddiau pobl yn cael eu llenwi mewn ffordd ystyrlon.

3.3.7 Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer tu allan i oriau gwaith arferol, gyda 'rota rheolwyr ar alwad' hyd at 10.30yh, ac mae rota ar gyfer rheoli sefyllfaoedd sy'n gallu digwydd yn ystod penwythnosau.

3.3.8 Ni fydd staff sy'n gweithio yng nghartref gofal Trem y Castell yn gweithio dros 48 awr yr wythnos. Neu, fel arall, bydd staff yn tueddu i beidio gweithio dros 35 awr yr wythnos, ond yn ystod adegau o brinder staff bydd yr oriau hyn yn tueddu i gynyddu er mwyn sicrhau parhad gofal.

3.3.9 Roedd gwaith recriwtio'n digwydd yn ystod yr ymweliadau monitro, gyda staff posibl yn cael eu cyfweld yn gyntaf gan breswylwyr a'u perthnasau. Roedd yn ymddangos bod pobl yn mwynhau hyn, a chytunwyd ei bod yn ffordd gwerth chweil o gael pobl sy'n byw yn y

cartref i gymryd rhan mewn penderfynu pwy fyddent yn dymuno eu cael i ofalu amdanynt/eu cefnogi.

3.4 Systemau Sicrhau Ansawdd

3.4.1 Fel arfer bydd Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid CBSC yn llunio arolwg o randdeiliaid fesul blwyddyn, wedyn yn defnyddio'r arolwg i ganfod beth yw ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Maes o law, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gasglu gwybodaeth at ei gilydd ar gyfer y flwyddyn gyfredol, a dosbarthu holiadur, gan gasglu canlyniadau hwnnw at ei gilydd a'u cyhoeddi yn unol â'r drefn honno.

3.4.2 Edrychwyd ar rai o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer staff a phreswylwyr. Roedd y rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn ffordd gynhwysfawr iawn ac yn rhoi llawer o wybodaeth. Roedd y cyfarfodydd staff wedi cynnwys nifer o bynciau h.y. staff newydd, technegau codi a chario, tywydd cynnes, archwilio ffeiliau, rheoli haint, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd ayyb. Roedd cyfarfodydd preswylwyr wedi cyfeirio at syniadau fel dechrau cael dosbarthiadau Tai Chi, ac amserlen o weithgareddau wedi eu strwythuro ayyb. Dywedodd y Rheolwraig, er na chynhaliwyd cyfarfod i Berthnasau ers cryn amser, bod cynlluniau i gynnal un yn fuan iawn. Cadarnhaodd y Rheolwraig bod ganddi bolisi 'drws agored' lle gall pobl drafod unrhyw faterion bob dydd.

3.4.3 Bydd y prosesau trosglwyddo cyfrifoldeb yn cynnwys nifer o ddogfennau i fwydo i mewn i'r broses hon h.y. dyddiadur dyddiol, trosglwyddo mewn ysgrifen a llyfr cyfathrebu, yn ogystal â bod trosglwyddiad llafar. Y staff ar swyddi lefel uwch fydd yn gwneud hyn, a bydd staff yn llofnodi'r Dyddiadur Dyddiol i ddangos pa bryd byddant wedi symud ymlaen gyda cham gweithredu.

3.4.4 Yn ystod y misoedd diwethaf, bu'r cartref yn rhan o 'gynllun peilot Atal Cwympo' sydd wedi ei sefydlu gan y Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau, yn gweithredu ar y cyd gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Nod hyn yw darparu ymateb amserol i'r person sydd wedi cwympo, eu cael i'r llwybr gofal mwyaf priodol a lleihau mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys pan na fydd hynny'n angenrheidiol.

3.4.5 Mae modd cael gwasanaethau eiriolaeth pan fo angen (gofyn trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae gwasanaethau eiriolaeth yn ddefnyddiol i bobl sy'n agored i niwed a heb lais ar faterion sy'n bwysig iddynt, os nad oes ganddynt aelodau o'u teulu i weithredu ar eu rhan.

3.4.6 Bydd y tîm staff yn Nhrem y Castell gydol yr amser yn ceisio hyrwyddo anghenion a dyheadau pobl gyda dementia, a chefnogi/cymell eraill i ddarparu gofal wedi ei ganoli ar yr unigolyn.

3.4.7 Bydd y Rheolwraig yn sicrhau ymchwilio i ffyrdd eraill o reoli ymddygiad preswylydd, cyn trefnu i gael moddion ar bresgripsiwn.

3.5 Adborth oddi wrth Breswylwyr

3.5.1 Fe ofynnwyd rhai cwestiynau o'r Arf Monitro Contractau yn ystod yr ymweliadau monitro. Roedd yr ymatebion i'r rhain yn cynnwys "mae'n brydferth yma" a phan ofynnwyd a oedd y staff yn garedig, roedd yr ymateb yn gadarnhaol a bod staff yn sôn am bethau arferol bob

dydd gyda hi, a hithau'n edrych ymlaen at hynny. Yn ystod yr ymweliadau monitro, cafwyd cyfle o sgwrsio gyda phreswylwyr, oedd yn ymddangos yn fodlon.

3.6 Adborth oddi wrth Berthnasau

3.6.1 Cafwyd sgwrs gyda pherthynas er mwyn cael ei farn ef ar sut ofal roedd aelod o'i deulu yn ei gael yn Nhrem y Castell. Roedd yn uchel ei glod i'r gofal, gan ddweud bod y staff yn arbennig o dda, a'i fod yn teimlo croeso iddo bob tro byddai'n ymweld. Cadarnhawyd y byddai'n cael gwybod am newidiadau yn iechyd ei dad, a bod polisi 'drws agored' lle gallai drafod unrhyw faterion gyda'r rheolwraig, pe bai angen. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth roedd yn dymuno ei newid, dywedwyd nad oedd dim, ac yn ei farn ef fod y cartref wedi llwyddo i ddarparu ansawdd bywyd da i'w dad.

3.7 Sylwadau

3.7.1 Gwelwyd bod rhyngweithio effeithiol yn digwydd rhwng staff a phreswylwyr yn y cartref, a'r staff yn ymddangos yn ddiffwdan ac yn gyfforddus yn eu rolau.

3.7.2 Mae ar hyn o bryd ddarpariaeth i sgwrsio yn Gymraeg os bydd angen, gan fod un o'r gofalwyr yn gallu siarad yr iaith.

3.7.3 Mae'r cyntedd mawr ar y llawr cyntaf (Cartref) wedi cael ei addurno'n llachar ar thema garddio, yn cynnwys rhannau lle gall pobl eistedd i fwynhau'r amgylchedd hwn, sy'n symbylu llawer.

3.7.4 Bydd pobl gyda dementia yn aml yn cael budd oddi wrth ymlyniad emosiynol 'therapi dol' ac yn ystod yr ymweliad roedd yn galonogol gweld bod person ym mwynhau'r gweithgaredd hon ac yn sôn wrth staff ac eraill am eu dol.

3.7.5 Roedd amserlen Gweithgareddau wedi cael ei llunio'n benodol ar gyfer pobl sy'n hŷn/bregus, ar ôl iddynt hwy ofyn am hynny. Fe ymwelodd y Swyddog Monitro Contractau ag un wraig mae'n well ganddi aros yn ei hystafell yn ystod y dydd. Fe eglurodd y wraig honno bod ganddi ofalwyr yn galw i'w gweld yn rheolaidd a bod ei hanghenion wedi cael eu hateb o ran cael ei symud yn ddiweddar i ystafell fwy. Roedd mantais ychwanegol yn hynny yn yr ystyr o fod yn agosach at y lolfa, lle gall y wraig hon gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phobl eraill os bydd yn dymuno.

3.7.6 Roedd nifer fawr o ffotograffau'n cael eu harddangos yng nghyntedd y cartref, yn dangos nifer o weithgareddau roedd pobl wedi eu mwynhau. Roedd mannau cyntedd eraill hefyd wedi cael eu haddurno gyda thema oedd o ddiddordeb i bobl yn byw yno e.e. lluniau o wyliau, thema Gymreig (diddordebau sy'n darparu amgylchedd i symbylu pobl a phynciau i'w trafod).

3.7.7 Mae'r cartref wedi cael ei ailwampio, gwaith a gwblhawyd ar y cyfan yn 2016. Erbyn hyn, mae yno amgylchedd deniadol i bobl, sy'n cynnwys caffi 'retro' ar y llawr daear (sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel sinema); ailwampio ystafelloedd ymolchi, deunydd llawr newydd yn y lle bwyta i lawr grisiau ac ailaddurno llawer o rannau.

3.7.8 Ni sylwyd ar unrhyw arogleuon drwg yn ystod yr ymweliadau.

3.7.9 Clywyd y gloch alw'n cael ei seinio ar ddau achlysur, a chafodd ei hateb yn brydlon y ddau dro.

3.7.10 Cafodd ystafelloedd gwely pobl eu gwneud yn llefydd personol iddynt hwy yn ôl eu dewis hwy e.e. eu ffotograffau eu hunain, eiddo personol ayyb.

3.7.11 Mae ardal patio/gardd fechan i bobl ei defnyddio, er bod mynediad rywfaint yn anoddach ar gyfer pobl gyda dementia ar y llawr cyntaf.

4. Camau Cywiro/Datblygiadol

4.1 Casglu dogfen '*This is me'* ar gyfer pawb sy'n byw yn Nhrem y Castell, gyda pherthnasau (unigolion perthnasol eraill) sy'n ymwneud gyda gofal yr unigolyn i fod yn rhan o hynny. **Amserlen: yn mynd ymlaen**

5. Casgliad

5.1 Mae cartref gofal Trem y Castell yn parhau i hyrwyddo ethos *Dementia Care Matters*, sy'n ffordd o weithredu ar sail teimladau ar gyfer pobl gyda dementia, er mwyn gwella ansawdd eu bywyd. Mae'r ffordd hon o weithredu hefyd yn fuddiol i bobl sy'n byw heb ddementia. Roedd yn amlwg bod y cartref wedi parhau i adeiladu ar y ffordd hon o weithredu trwy ychwanegu at yr amgylchedd, i'w wneud yn un sy'n symbylu ac yn gwahodd gymaint ag y bo modd, gan gadw mewn cof beth yw dewisiadau pobl unigol.

5.2 Mae'r cartref yn parhau i fod ag awyrgylch a ffordd o weithredu sy'n gynnes ac esmwyth, lle mae rhyngweithio cadarnhaol yn digwydd rhwng y staff a phobl sy'n byw yn y cartref. Yn ystod yr ymweliadau, roedd yn ymddangos bod pobl yn cael gofal da ac roeddent yn llawn clod i'r gofal roeddent yn ei gael, yn cynnwys adborth cadarnhaol oddi wrth berthnasau.

5.3 Mae gan y cartref dîm staff sydd wedi ei hyfforddi'n addas, yn cael goruchwyliaeth reolaidd ar sail un i un, ac yn cael eu cynorthwyo i ddiweddaru eu gwybodaeth o'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf sy'n effeithio arnynt a'r gwasanaeth byddant yn ei ddarparu. Fodd bynnag, bydd canolbwyntio mwy ar arfarniadau blynyddol yn gwella mwy fyth ar ddatblygiad personol y staff.

5.4 Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r staff a'r preswylwyr am eu hamser a'u croeso yn ystod yr ymweliadau monitro.

Awdur: Andrea Crahart

Dynodiad: Swyddog Monitro Contractau, Tîm Comisiynu

Dyddiad: 10 Gorffennaf 2017

Noder Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os gofynnant i gael eu gweld.